Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saeneg | This document is also available in English

# Cymorth Cyflogadwyedd i Fyfyrwyr: Cynllun Cyflawni

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | |
| **Enw Swyddog Arweiniol y Prosiect:** | |
| **Swydd:** | |
| **E-bost:** | |
| **Ffôn:** | |

| **Adran A: Trosolwg** |
|---|
| **1. Dull Cyflawni** |
| Darparwch drosolwg o sut y byddwch yn cyflawni deilliant cyffredinol y gronfa, h.y. datblygu cyflogadwyedd myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch neu o gefndir cymdeithasol-ddifreintiedig sydd leiaf tebygol o brofi deilliannau cyflogaeth cadarnhaol pan fyddant yn graddio. Dylai'r cymorth symud myfyrwyr yn nes at y farchnad lafur a helpu i'w rhoi mewn sefyllfa lle maent yn gallu cystadlu am swyddi cynaliadwy o ansawdd a hynny ar sail gydradd o'i gymharu â'u cyfoedion. Dylai'r dull cyflawni fod yn gyson â disgwyliadau CCAUC fel a nodir yng nghylchlythyr W22/21HE.<br><br>*Dylai'r adran hon nodi:*<br>*(i) y grwpiau o fyfyrwyr sy'n flaenoriaeth y byddwch yn canolbwyntio arnynt a'r sail dystiolaeth ar gyfer eu pennu;*<br>*(ii) sut y byddwch yn eu hadnabod ac yn rhoi cymorth iddynt;*<br>*(iii) sut y bydd y dull arfaethedig yn cyflawni'r deilliant, sef datblygu cyflogadwyedd myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;*<br>*(iv) sut y mae'r sefydliad wedi cynnwys a chasglu llais myfyrwyr wrth ddatblygu'r cynllun hwn;*<br>*(v) sut y mae'r gweithgarwch arfaethedig yn adeiladu ar y gwersi a, lle y bo'n briodol, yn adlewyrchu'r gwersi o [GO Wales: Y Rhaglen Cyflawni drwy Brofiad Gwaith](#) a'r [Gronfa Cymorth i Raddedigion](#)*<br><br>[Uchafswm o 1500 o eiriau] |

## 2. Cysondeb â blaenoriaethau strategol sefydliadol

*Dylai'r adran hon nodi sut y mae'r dull arfaethedig yn gyson â'ch cenhadaeth, diben a blaenoriaethau strategol sefydliadol, gan gynnwys strategaethau a chynlluniau sefydliadol (e.e. Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau, Strategaeth Ehangu Mynediad, cynlluniau ffioedd a mynediad a.y.b.)*
[Uchafswm o 250 o eiriau]

## 3. Monitro a Llywodraethu

*Dylai'r adran hon nodi:*

*(i) Y strwythur llywodraethu a'r trefniadau adrodd mewnol ar gyfer cyflawni'r gweithgarwch hwn, gan gynnwys nodi cyfrifoldeb am yr oruchwyliaeth strategol a gweithredol ar gyfer datblygu'r cynllun hwn a'i roi ar waith;*

*(ii) Y prosesau ar gyfer monitro perfformiad y cynllun hwn, y cynnydd a wneir gydag ef a'r modd y'i cyflawnir;*

*(iii) Y prosesau ar gyfer llais myfyrwyr, a chynnwys llais myfyrwyr, wrth werthuso effeithiolrwydd y modd y cyflawnir y cynllun hwn;*

*(iv) Y prosesau ar gyfer sicrhau rheolaeth effeithiol ar gyllid ac atebolrwydd effeithiol am gyllid;*

*(v) Y broses ar gyfer rheoli risgiau i roi'r cynllun ar waith a'i gyflawni.*

[Uchafswm o 500 o eiriau]

## 4. Dull Cydweithredol

*Dylai'r adran hon nodi sut y byddwch yn gweithio gydag:*

*i) adrannau eraill yn eich sefydliad;*
*ii) sefydliadau ar draws y sector AU;*
*iii) sefydliadau allanol (e.e. cyflogwyr, sefydliadau busnes, y Ffederasiwn Busnesau Bach, cynghorau lleol, y gymuned gyfagos, prosiectau eraill) a hefyd;*
*iv) eich corff myfyrwyr.*

[Uchafswm o 500 o eiriau]

## 5. Cydlynu gyda darparwyr AU sy'n bartneriaid (Ar gyfer SAU yn unig)

*Dylai'r adran hon nodi sut y byddwch yn sicrhau bod myfyrwyr ar gyrsiau a ddarperir gan ddarparwyr addysg uwch sy'n bartneriaid dan drefniadau is-gontract yn cael budd o weithgareddau a gefnogir gan y cyllid hwn.*

[Uchafswm o 250 o eiriau]

## Adran B: Cynnwys Penodol

### 6. Gweithgarwch

*Dylai'r adran hon ymhelaethu ar yr wybodaeth a nodir yn y dull cyflawni yn adran 1, gan gynnwys:*

*(i) disgrifio manylion y gweithgareddau arfaethedig i gynyddu cyflogadwyedd myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;*

*(ii) sut y bydd y modd y cyflawnir y gweithgareddau'n cael ei integreiddio â'r prosesau a gweithdrefnau sefydliadol ehangach.*

***Ni ddylid defnyddio cyllid i ddisodli darpariaeth arall neu weithgareddau eraill****.*

[Uchafswm o 1000 o eiriau]

### 7. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

*Dylai'r adran hon nodi sut y mae eich cynllun wedi cael ei oleuo gan y canfyddiadau yn eich asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. NID yw'n ofynnol darparu copi o'ch Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.*

[Uchafswm o 250 o eiriau]

## Adran C: Y Canlyniadau / Targedau

**8. Dylai'r canlyniadau ddangos y bydd y gweithgareddau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar symud myfyrwyr yn nes at y farchnad lafur.**

**Mae canllawiau ynghylch y grwpiau o fyfyrwyr sy'n flaenoriaeth y mae'r gronfa hon yn amcanu at roi cymorth iddynt wedi'u nodi yng Nghylchlythyr W22/21HE.**

**Byddwch yn cael eich monitro'n rheolaidd o ran cynnydd yn erbyn y canlyniadau hyn a bydd disgwyl i chi gyflwyno Adroddiad Diwedd Blwyddyn ac Astudiaeth Achos. Bydd yn ofynnol i chi lunio naratif ar y gweithgarwch y tu ôl i'r canlyniadau yn yr adroddiadau hyn.**

**Yn yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn bydd disgwyl i chi ddarparu manylion effaith y cyllid, nifer y myfyrwyr/ graddedigion a gefnogwyd â deilliannau cyflogaeth gwell, y sefyllfa derfynol yn erbyn mesurau perfformiad (e.e. myfyrwyr wedi'u symud yn nes at y farchnad lafur), a gwerthoedd gwariant terfynol.**

| Gweithgareddau Arfaethedig | Disgrifiad Byr | Canlyniad / Mesur Perfformiad / Targed |
|---|---|---|
| 1. | | Cyfanswm y myfyrwyr a gefnogwyd |
| 2. | | Cyfanswm y myfyrwyr â deilliannau cyflogaeth gwell |
| 3. | | Cyfanswm y myfyrwyr sy'n gwneud profiad gwaith |
| 4. | | *e.e. %/ nifer y myfyrwyr anabl, cymorth cyflogadwyedd 1:1, clinigau CV, gweminarau, neu ddigwyddiadau.* |
| 5. [Ychwanegwch resi pellach fel y bo'n briodol] | | |

| Adran D: Cysondeb â pholisïau a blaenoriaethau |
| --- |
| **9. Polisïau Cymru a'r DU** |
| *Dylai'r adran hon nodi sut y mae eich gweithgarwch yn gyson â pholisïau perthnasol ar sail ranbarthol, Cymru a'r DU, er enghraifft Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru.* [Uchafswm o 250 o eiriau] |

| 10. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 |
| --- |
| *Darparwch wybodaeth benodol am y modd y bydd y gweithgarwch hwn yn ategu'r saith nod a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.* [Uchafswm o 250 o eiriau] |

| 11. Y Gymraeg |
| --- |
| *Dylai'r adran hon nodi'r dull o hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws pob agwedd ar gyflawni. Lle y bo'n briodol efallai y byddwch yn dymuno cyfeirio at y themâu yn Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* [Uchafswm o 500 o eiriau] |

## Adran E: Dadansoddiad o Wariant

### 12. Rhaid i wariant fod ar gyfer y gronfa hon yn unig. Bydd y taliad cyntaf yn erbyn y gronfa hon yn cael ei ryddhau i chi ar ôl cymeradwyo Cynllun Cyflawni boddhaol.

*Darparwch ddadansoddiad dangosol o wariant isod, yn erbyn y dyraniad uchaf posibl fel a nodir yng Nghylchlythyr W22/21HE. Fel a nodir yn y Cylchlythyr, rhaid i wariant ddigwydd erbyn 31 Gorffennaf 2023.*

Fel rhan o'r broses o asesu'r adroddiad ar y ffurflen fonitro, byddwch yn cael eich monitro'n rheolaidd yn erbyn y dadansoddiad hwn. Unwaith y cyflwynir y dadansoddiad o wariant, bydd angen i unrhyw newid sy'n fwy na 10% gael ei drafod a'i gytuno gyda CCAUC.

| | Gwariant | £ (GBP) | % o Gyfanswm y Dyraniad |
|---|---|---|---|
| 1 | *e.e. Costau staff* | | |
| 2 | *e.e. Costau trafnidiaeth a chostau eraill ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr* | | |
| *3* | *e.e. Bwrsariaethau* | | |
| 4 | *e.e. Offer (staff, myfyrwyr)* | | |
| 5 | *e.e. Marchnata a Chyhoeddusrwydd* | | |
| 6 | *e.e. Digwyddiadau ar safle a/neu ar-lein* | | |
| 7 | *e.e. Cydweithio* | | |
| 8 | [Ychwanegwch resi pellach fel y bo'n briodol] | | |
| | **Cyfanswm** | £ | % |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyllid ychwanegol e.e. allanol neu sefydliadol | £ | |

| **Adran G: Gofynion Rheoleiddiol**<br><br>*DS: Gall CCAUC ofyn am ragor o wybodaeth / eglurhad mewn perthynas ag unrhyw un o'r rhain* | | |
|---|---|---|
| i) | Deddf Safonau'r Gymraeg (2018)<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Dewiswch eitem |
| ii) | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Dewiswch eitem |
| iii) | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Dewiswch eitem |

| **Adran H: Cymeradwyaeth**<br><br>Trwy lofnodi a chyflwyno'r cynllun cyflawni i CCAUC mae'r sefydliad yn cadarnhau ei fod yn ymrwymedig i gyflawni'r gweithgarwch a ddisgrifir i gyflawni'r deilliannau. | |
|---|---|
| **Llofnod Awdurdodedig: Is-Ganghellor** | |
| **Dyddiad:** | |